# Sesiwn wybodaeth Diwygiadau DSA

06 Chwefror 2024

# Croeso

Stakeholder_Engagement@slc.co.uk

# Agenda

- Cefndir y diwygiadau
- Gweledigaeth DSA
- Llinell amser trawsnewid
- Gwasanaeth newydd o Chwefror
- Rheoli gwasanaethau contractau newydd
- Cwestiynau a themâu allweddol

# Cefndir y diwygiadau

Student Loans Company

# Beth yw Lwfans Myfyrwyr Anabl (DSA)?

Grant i helpu myfyrwyr cymwys i dalu am unrhyw gostau astudio hanfodol ychwanegol a allai fod ganddynt o ganlyniad uniongyrchol i'w hanabledd, gan helpu galluogi cyfleoedd drwy ehangu mynediad a chyfranogiad mewn addysg uwch.

Gall myfyrwyr gael cymorth gyda chostau:

- offer arbenigol, er enghraifft cyfrifiadur gyda meddalwedd technoleg gynorthwyol neu ddodrefn ergonomig arbenigol
- cymorth anfeddygol (NMH), er enghraifft mentor arbenigol, ysgrifennwr nodiadau arbenigol neu ddehonglydd Iaith Arwyddion Prydain (BSL)
- costau trafnidiaeth ychwanegol i fynychu eu cwrs
- cymorth astudio arall yn ymwneud ag anabledd, er enghraifft costau argraffu ychwanegol

# Cefnogaeth yn ôl math o anabledd (2022/23)






# Manteision allweddol i fyfyrwyr

- Gwell taith ymgeisio – bydd gan fyfyrwyr un pwynt cyswllt ar gyfer eu cefnogaeth o un pen i'r llall ar gyfer darparu asesiadau anghenion astudio, technoleg gynorthwyol a hyfforddiant technoleg gynorthwyol.

- Rheolaethau cytundebol ffurfiol sy'n galluogi SLC i sicrhau bod cyflenwyr yn cyflawni'r perfformiad gofynnol ac yn bodloni safonau ansawdd.

- Gwell gwerth am arian i'r myfyriwr a'r trethdalwr.

# Gweledigaeth DSA

# Ein Gweledigaeth

***Cael ein cydnabod fel sefydliad sy'n galluogi cyfleoedd i fyfyrwyr ac yn darparu profiad rhagorol i'r cwsmer o ran cyflawniad effeithiol polisïau cyllid addysg bellach ac addysg uwch pedair Llywodraeth y Deyrnas Unedig.***

Yn SLC, un o'n hamcanion strategol craidd yw darparu gwasanaethau sythweledol, di-dor a thryloyw sy'n cyd-fynd â thaith y cwsmer ac wedi'u hategu gan systemau sy'n cynnig gwybodaeth glir a hygyrch.

Rydym wedi creu strategaeth profiad cwsmeriaid i gyflawni gwelliannau a arweinir gan fewnwelediad i daith y cwsmer o un pen i'r llall ac mae ein gweledigaeth ar gyfer DSA yn un o wasanaeth sydd wedi'i drawsnewid a'i wella'n sylweddol.

# Llinell amser trawsnewid

# Llinell amser trawsnewid DSA

## Gwasanaeth newydd o Chwefror 2024

- Symud i weithio gyda dau gyflenwr ar gontract i ddarparu eu gwasanaeth DSA i fyfyrwyr.
- Profiad symlach a chyflymach i gwsmeriaid wrth i'r cyflenwyr newydd eu harwain drwy'r broses.
- Mae gwaith uniongyrchol SLC gyda'r cyflenwyr yn nodi cyfleoedd i optimeiddio a gwella'r gwasanaeth ymhellach.
- Gwybodaeth am gymhwysedd a chymorth cymeradwy yn cael ei rhannu'n ddiogel â'r cyflenwyr newydd er mwyn atal myfyrwyr rhag gorfod ailadrodd gwybodaeth.
- Yr unig eithriad yw tystiolaeth anabledd y bydd angen i'r myfyriwr ei hanfon at SLC **a** chyflenwyr yn y lle cyntaf.

## Mwy o integreiddio o'r hydref 2024

- Gwella'r prosesau a'r modelau masnachol a roddwyd ar waith yn y camau blaenorol.
- Integreiddio rhwng SLC a systemau cyflenwyr ar gyfer rhannu data awtomataidd.
- Lleihau baich gweinyddol a chymhlethdod ymhellach i fyfyrwyr, SLC a chyflenwyr.
- Dim ond unwaith y bydd myfyrwyr yn darparu tystiolaeth anabledd i SLC sy'n ei rhannu'n ddiogel â'r cyflenwyr.

## Gwasanaeth digidol wedi'i drawsnewid o 2025

- Holl wybodaeth myfyrwyr wedi'i hintegreiddio mewn un storfa ddigidol, sydd ar gael i SLC, cyflenwyr a myfyrwyr.
- Mae gan bob myfyriwr DSA fynediad i geisiadau ar-lein, hunanwasanaeth a sianeli ychwanegol fel gwe-sgwrs a negeseuon diogel.
- Cyfathrebu digidol diogel rhwng SLC, cyflenwyr, partneriaid a darparwyr addysg
- Bydd pawb sy'n ymwneud â darparu cymorth i fyfyrwyr DSA yn cael mynediad hawdd at y wybodaeth sydd ei hangen arnynt.

# Gwasanaeth newydd o Chwefror

# Ardaloedd daearyddol




| Parth | Tiriogaeth | Cyflenwr |
|---|---|---|
| 1 | Yr Alban<br>Gogledd-orllewin Lloegr<br>Gogledd-ddwyrain Lloegr<br>Swydd Gaerefrog a'r Humber | **Study Tech** |
| 2 | Gorllewin Canolbarth Lloegr<br>Dwyrain Canolbarth Lloegr<br>Cymru<br>Gogledd Iwerddon | **Capita** |
| 3 | Dwyrain Lloegr<br>Llundain | **Capita** |
| 4 | De-orllewin Lloegr<br>De-ddwyrain Lloegr | **Study Tech** |

# Taith newydd y myfyriwr

**01**

Bydd cwsmeriaid newydd yn ymgeisio i SLC am eu DSA yn y ffordd arferol.

**02**

Bydd SLC yn parhau i brosesu eu cais ac asesu eu cymhwyster.

**03**

Unwaith y bydd SLC wedi asesu bod y cwsmer yn gymwys, bydd angen i SLC neilltuo'r cwsmer i Study Tech neu Capita.

**04**

Yna bydd gan y cwsmer un pwynt cyswllt ar gyfer ei asesiad anghenion, technoleg gynorthwyol a gofynion hyfforddi.

**05**

Bydd Adroddiadau Asesiad Anghenion yn parhau i gael eu hanfon gan y cyflenwr i SLC i'w hadolygu.

**06**

Bydd SLC yn hysbysu'r cwsmer a'r cyflenwr am yr argymhellion y cytunwyd arnynt.

**07**

Yna bydd y cyflenwr yn cysylltu â'r cwsmer i drefnu i'w dechnoleg gynorthwyol gael ei gyflenwi.

**08**

Bydd y cyflenwr yn gyfrifol am osod, sefydlu a chynefino'r cwsmer o'u hoffer a meddalwedd, ac unrhyw hyfforddiant yn ôl yr angen.

# Cefnogi myfyrwyr

- Unwaith y bydd y gwasanaeth newydd yn dechrau, a fyddech cystal â pharhau i gynghori myfyrwyr i wneud cais i SLC am DSA fel arfer.
- Nid yw polisi DSA, cymhwyster a hawl myfyrwyr yn newid.
- Os yw hysbysiad DSA1 myfyriwr wedi'i ddyddio ar ôl 26 Chwefror, caiff ei ddyrannu i Study Tech neu Capita yn seiliedig ar y cyfeiriad cyswllt y mae'n ei roi i SLC.
- Os caiff cymhwysedd i gael DSA ei gadarnhau ar ôl i'r tymor ddechrau, caiff y myfyriwr ei neilltuo i gyflenwr fframwaith yn seiliedig ar gyfeiriad ei ddarparwr addysg uwch (HEP).

# Senarios pontio

**Pontio 1** – Myfyrwyr sydd wedi derbyn asesiad o anghenion ac sydd wedi derbyn eu technoleg gynorthwyol (TC) a hyfforddiant

**Pontio 2** – Myfyrwyr sydd wedi cael eu hasesiad o anghenion ac wedi cael eu DSA2, ond nad ydynt wedi trefnu eu TC a'u hyfforddiant

**Pontio 3** – Myfyrwyr sydd wedi cael eu hasesiad o anghenion, ond nad yw SLC wedi anfon eu llythyr DSA2

**Pontio 4** – Myfyrwyr sydd wedi cael eu hysbysiad cymhwysedd (DSA1) ac sydd yn y broses o archebu eu hasesiad o anghenion

# Rheoli gwasanaethau contractau newydd

# Rheoli Contract Gwasanaethau Allanol

SLC

**Contractau**

- Yn drylwyr ac yn fanwl gyda Thelerau ac Amodau yn cael eu deall yn llawn
- Cymesur: risg, cymhlethdod, pwysigrwydd strategol a gwerth
- Dangosyddion Perfformiad Allweddol Cyflenwr (DPA)/darpariaethau contract perfformiad Cytundebau Lefel Gwasanaeth (CLG)
- Eglurder, diffiniedig, gwybodaeth reoli (MI) ac adrodd

**Safonau**

- Safon Weithredol y Llywodraeth GovS 008: Masnachol
- Swyddogaeth Fasnachol y Llywodraeth Safonau Proffesiynol Rheoli Contractau Fersiwn 2.0

**Hyfforddiant**

- Defnyddio cyrsiau hyfforddi Coleg Masnachol y Llywodraeth (GCC).
- Mae'r Rhaglen Gallu Rheoli Contractau (CMCP) wedi'i datblygu i hyfforddi ac achredu'r rhai sydd â rôl i'w chwarae mewn rheoli contractau.

**Achrediad**

- Sylfaen…Ymarferydd…Arbenigwr

# Rheoli Perthynas Cyflenwyr SLC

## Cyflenwyr

- Llywodraethu: Strwythur, Aliniad a Rheolau Ymgysylltu (RoE)
- Cyfathrebu Agored a Thryloywder
- Meithrin Ymddiriedaeth, Parch a Chydweithio
- Canolbwyntio ar yrru canlyniad 'ennill-ENNILL-enn
  Profiad y Cwsmer
- Cefnogaeth pan fo problemau'n codi
- Adolygiadau Busnes ac Amlder



# Mesur Perfformiad Cyflenwyr SLC

SLC

Sefydlu | Mynd yn Fyw | Sefydlogrwydd | BAU

DANGOSFYRDDAU)

**Parodrwydd Gwasanaeth**

Meini Prawf Cychwyn / Peidio Cychwyn
Diffygion a Fetoau
Gatiau Camau a Cherrig Milltir
Presenoldeb yn y Maes
Archwiliadau Ansawdd

**Cyfnod Sylfaen**

- **Asesiad Anghenion (5)**
- **Darparu Offer Technoleg Gynorthwyol (3)**
- **Darparu Hyfforddiant Technoleg Gynorthwyol (3)**
- Offer Technoleg Gynorthwyol Cymorth Technegol, Atgyweirio ac Amnewid (4)
- Delio â Chysylltiadau Cwsmeriaid (3)
- Delio â Chwynion Cwsmeriaid (1)
- Cyflenwi Adrodd (1)
- Cywirdeb Anfonebu (1)
- Cystadleurwydd y Farchnad Fasnachol (2)
- Perfformiad Systemau a TG (1)
- Gwerthoedd Cymdeithasol (1)
- Gwelliant Parhaus (1)
- Sgôr Bodlonrwydd SLC (1)

Set graidd o 27 DPA
Gweithredu cytbwys
Mesuradwy a Thystiolaethol



Dadansoddi Data ac Adrodd ar Dueddiadau
50 adroddiad yn RFP Ein Anghenion
Gwelliant Parhaus i CX

# Profiad Cwsmer DSA (CX)

- **Proses Ganolog gan SLC**

- **Cam wrth Gam o daith CX**
  - Asesiad Anghenion
  - Offer Technoleg Gynorthwyol
  - Hyfforddiant Technoleg Gynorthwyol

- **Mesuriadau Llwyddiant**
  - Llai o Amser Proses a Chylch
  - Gwell Profiad Cwsmeriaid

- **Adrodd tueddiadau manwl a gwybodaeth busnes**
  - >50 o adroddiadau manwl
  - Ysgogi gwella perfformiad

# Cwestiynau a themâu allweddol

Unrhyw gwestiynau, e-bostiwch: Stakeholder_engagement@slc.co.uk

Student Loans Company

Y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr
Sesiwn Gwybodaeth Rhanddeiliaid
✉ Stakeholder_Engagement@slc.co.uk
www.gov.uk/slc